



Llywodraeth Cymru  
Ymateb i'r ymgynghoriad

## **Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Dogfen ganllawiau anstatudol Rhagfyr 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

# Catégorieiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – canllawiau diwygiedig

## Cynulleidfa

Cyrff addysg sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, neu sydd â diddordeb ynddynt, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, undebau athrawon, ESTYN, cyrff dyfarnu, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus ac eraill â diddordeb.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r safbwyntiau mewn ymateb i ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r canllawiau anstatudol Categoriiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – canllawiau diwygiedig

## Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Is-adran y Gymraeg

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

Cymru CF10 3NQ

E-bost: [UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru](mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copiâu ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

[www.llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau)

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Dogfennau cysylltiedig

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017)

Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (2017)

Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cyngori Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2019)

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)

Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (2020)

Arad: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (2021)

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Ymatebion a themâu cyffredinol</b>	<b>3</b>
Llai o gategoriâu ond categorïau ehangach	4
Yr angen am fwy o fanylder	5
Mwy o uchelgais, adnoddau a chymhellion	6
<b>Y camau nesaf</b>	<b>7</b>

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 15 wythnos o hyd, rhwng 14 Rhagfyr a 26 Mawrth 2021, i geisio safbwyntiau pobl ar y newidiadau arfaethedig i'r canllawiau drafft anstatudol – Categorioidio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar drefniadau newydd ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl faint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd mewn ysgolion.

Roedd y canllawiau drafft yn seiliedig ar y canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr [adolygiad o gategoriâu ysgolion](#) a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Cyn y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy sesiwn ymgysylltu anffurfiol yn ystod mis Chwefror 2020 yng Nghyffordd Llandudno a Chaerfyrddin. Cafodd 19 o'r 22 o awdurdodau lleol eu cynrychioli, yn ogystal â phenaethiaid/cynrychiolaeth o uwch-dimau arwain ysgolion o bob categori.

Gofynnodd yr ymgynghoriad gyfanswm o naw cwestiwn:

1. A ydych chi'n cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategorioidio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg?
2. A ydy'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?
3. A ydyn ni'n cyflawni ein nod polisi o gyflwyno categorïau ar gyfer ysgolion sy'n fwy eglur ar gyfer:
  - (a) rhieni/gofalwyr?
  - (b) awdurdodau lleol?
  - (c) ysgolion?
4. A ydych chi'n cytuno â'r defnydd o rifau i gategorioidio?
5. A ydych chi'n cytuno â chael llai o gategoriâu ond disgrifiadau ehangach?
6. A ydych chi'n cytuno â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori?
7. A ydych chi'n cytuno â chyflwyno is-gategoriâu i hwyluso cyfnod trosiannol?
8. Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem gynnwys:
  - (a) canran isafswm yn unig?
  - (b) ystod canran isafswm ac uchafswm?
9. A oes angen i ni gyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr, yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol?

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 103 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn:

- cyflwynwyd 73 drwy'r ymgynghoriad ar-lein;
- cyflwynwyd 30 drwy e-bost

Hefyd, cafodd Llywodraeth Cymru ymatebion drwy ddwy ymgyrch:

- cyflwynwyd 225 o ymatebion unfath drwy un ymgyrch;
- cyflwynwyd dau ymateb unfath drwy'r ail ymgyrch.

Mae'r ymatebion a gafwyd drwy'r ddwy ymgyrch uchod wedi'u cynnwys fel dau ymateb unigol – un i bob ymgyrch.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Cwmni Ymchwil Arad i ddadansoddi'r ymgynghoriad, ac mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u nodi yn yr adroddiad '[Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion](#)'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau unigol a'r themâu allweddol y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad Arad yn ofalus. Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lywio'r polisi hwn hyd yma.

## Ymatebion a themâu cyffredinol

Ein nod drwy gydol y broses o adolygu'r polisi hwn yw sicrhau eglurder ac undod mewn perthynas â system sy'n aml wedi achosi amrywiaeth barn, byth ers iddi gael ei chyflwyno gyntaf yn 2007. Er mwyn nesáu at gyflawni ein nod llesiant o sicrhau Cymru â 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', rhaid inni alluogi mwy o ddysgwyr i gael profiad ystyrllon a boddhaus wrth ddysgu Cymraeg, a phrofiad sy'n cynnig digon o gyfleoedd i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg er mwyn rhoi perthnasedd a phwrpas iddi yn eu bywydau pob dydd. Rydym am i fwy o ddysgwyr adael ysgol yn siaradwyr Cymraeg ac i unrhyw fframwaith ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl iaith helpu i wireddu'r uchelgais hwn. Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi pwyslais ar gynnydd dysgwyr a ffocws o'r newydd ar gyfleoedd i ddysgu am hanes, treftadaeth, iaith a diwylliant Cymru. Mae strategaeth *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* yn cyflwyno'r cyd-destun a'r sbardun ar gyfer newid.

Felly, mae'n galonogol gweld bod tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno â ni pan ofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau ar fwrriad Llywodraeth Cymru i adolygu'r polisi ar gatedoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn rhoi mandad clir inni barhau â'n gwaith yn y maes hwn. Rydym hefyd wedi ein bodloni bod cytundeb cyffredinol â'n cynigion i drefnu ysgolion yn dri chategori yn y sector cynradd a thri chategori yn y sector uwchradd. Hefyd, cafwyd croeso cyffredinol i'r syniad o gyflwyno is-gategoriâu trosiannol fel pont rhwng dau gategori. Yn ogystal â hynny, mae'r ffocws cynyddol ar ddeilliannau ieithyddol i ddysgwyr ym mhob categori wedi cael ei groesawu.

Mae'r rhain i gyd yn ddangosyddion pwysig ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod yr ymatebion yn aml yn cynnwys amrywiaeth barn ar rifo'r categorïau (1-3) yn ogystal â defnyddio canran isafswm neu ystod canran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i wahaniaethu rhwng y categorïau. Rydym yn dal i ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn y canllawiau terfynol ond, am y tro, byddwn yn parhau i gyfeirio at gategoriâu yn ôl rhif a disgrifiad.

Yr hyn sy'n amlwg o'r ymatebion yw bod angen inni deilwra'r canllawiau i bob un o'r tri grŵp y cyfeiriwyd atynt yn yr ymgynghoriad – rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol. Ar gyfer rhieni a gofalwyr yn benodol, mae angen inni sicrhau y caiff gwybodaeth am gatedoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chyflwyno a'i chyfleu mewn ffordd haws ei deall. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn.

Rydym wedi cael adborth yn dweud bod angen i feysydd eraill yn y polisi arfaethedig gael eu hatgyfnerthu, a'u diwygio mewn rhai achosion.

Ymhlith y meysydd allweddol y nodwyd bod angen rhagor o waith arnynt mae:

- Yr angen i liniaru canlyniadau anfwriadol yn sgil ein cynnig i ddefnyddio **llai o gategoriâu ond categorïau ehangach**. Nid ydym am ysgogi ymddygiadau a fyddai'n golygu llai o oriau o addysg cyfrwng Cymraeg.

- Yr **angen am fwy o fanylder** mewn perthynas â deilliannau ieithyddol, is-gategoriâu trosiannol ac amserlenni, trefniadau monitro, natur y cymorth a fydd ar gael i ysgolion er mwyn eu helpu i symud o un categori i'r llall a sut y caiff y cymorth hwnnw ei ariannu.
- Yr angen am **fwy o uchelgais, adnoddau a chymhellion** er mwyn helpu ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Llai o gategoriâu ond categorïau ehangach

Mae adroddiad dadansoddi Arad ar yr ymgynghoriad yn cyfeirio at risgiau y gall rhai pobl ystyried bod categorïau eang yn cymell ysgolion sydd eisoes yn cynnig cyfran uchel o'u darpariaeth yn y Gymraeg i leihau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu'n cyfyngu ar eu huchelgais i'w chynyddu. Gwelir o'r ymatebion mai yn y sector ysgolion uwchradd y mae hyn yn peri'r pryder mwyaf, ac ar gyfer categori arfaethedig 3 (cyfrwng Cymraeg) yn arbennig.

Mewn ardaloedd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a lle mae'r gymuned yn aml yn Gymraeg ei hiaith, bydd mwy o gyfleoedd i drochi dysgwyr yn y Gymraeg ac ni fyddant yn dibynnu ar yr ysgol yn unig i gaffael yr iaith. Mewn ardaloedd eraill lle y gwelir yn aml mai'r ysgol yw'r unig gyd-destun ar gyfer trochi yn y Gymraeg, mae'n hollbwysig achub ar bob cyfle i sicrhau y caiff dysgwyr gynifer â phosibl o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny mewn cynifer â phosibl o gyd-destunau yn ystod y diwrnod ysgol, er mwyn sicrhau y bydd hynny'n digwydd yn llwyddiannus. Ni chaiff amrywiannau, sydd gan amlaf yn adlewyrchu iaith y gymuned, eu hadlewyrchu yn neilliant disgwylidig y disgyblion o ran gallu ieithyddol. Mae'r ddau fodel yn creu siaradwyr Cymraeg yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y dylid mynd i'r afael â gwahaniaethau yn y ddau fodel cyflawni yn well yn y canllawiau terfynol er mwyn sicrhau na fydd canlyniadau anfwriadol.

Dyna pam **rydym yn cynnig y caiff Categori 3 ar gyfer y sector uwchradd ei rannu'n ddwy ran (neu is-gategoriâu)**. Bydd un ohonynt yn galluogi ysgolion i ddangos eu bod yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. rhwng 60% ac 80% o ddysgwyr yn gwneud 60% o'u gweithgareddau yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg). Bydd y llall yn galluogi ysgolion i ddangos eu bod yn cynnig pob profiad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. rhwng 90% a 100% o ddysgwyr yn gwneud 100% o'u gweithgareddau yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg). Byddai'r naill fodel a'r llall yn dal i berthyn i gategori 3 (cyfrwng Cymraeg) gan fod y rhan fwyaf o'r dysgu'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ond rydym yn ystyried cyflwyno is-gategoriâu at ddibenion ffurflenni CYBLD ac er mwyn sicrhau nad oes perygl o leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Byddwn hefyd yn atgyfnerthu un o egwyddorion allweddol y polisi hwn sef **na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a gynigiwyd yn y gorffennol** ac y dylent, lle bynnag y bo modd, chwilio am gyfleoedd i gyflwyno mwy o Gymraeg yn yr ysgol.

I grynhoi, rydym yn bwriadu:

- Adolygu disgrifiadau Categori 3 (uwchradd) er mwyn gwahaniaethu'n well rhwng ysgolion sy'n:

- 1) cynnig amrywiaeth eang o brofiadau dysgu yn y Gymraeg
- 2) cynnig eu holl brofiadau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddai'r categorïau eraill yn aros fwy neu lai yr un fath.

- Atgyfnerthu'r egwyddor na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a gynigiwyd yn y gorffennol.

## Yr angen am fwy o fanylder

Yn y canllawiau terfynol, mae angen atgyfnerthu'r dulliau sydd ar waith er mwyn helpu ysgolion i gynnal a monitro eu disgrifiadau categori a chynnal asesiad cywir o'u categori iaith. Mae'n dal yn ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol gyhoeddi categori iaith ysgolion yn eu prospectws ysgol neu eu prospectws cyfansawdd, a byddwn yn disgwyl i bob ysgol ac awdurdod lleol gydweithio â'i gilydd i gytuno ar y categori sydd fwyaf addas i ddarpariaeth iaith yr ysgol. Rydym wedi bod yn paratoi i ddiweddarau CYBLD hefyd drwy gyflwyno codau newydd, ac is-godau o bosibl, sy'n cyfrifo categori iaith yr ysgol yn awtomatig ar sail mewnbynnau data.

**Mae angen mwy o fanylder mewn perthynas â pha mor gyson yw'r polisi hwn â pholisïau addysg eraill.** Mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a ddatblygwyd er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn un enghraifft o'r fath. Byddwn yn sicrhau y bydd ein canllawiau yn llywio'r ffordd y gallai ysgolion ddefnyddio eu Cynlluniau Gwella Ysgolion i hunanwerthuso yn unol â'u categori iaith ysgol dynodedig. Hefyd, bydd y canllawiau terfynol yn amlinellu sut y gallai ysgolion gynllunio ar gyfer cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydweithio â'u hawdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a chyrrff perthnasol eraill (e.e. cyrrff sector gwirfoddol megis yr Urdd, Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin). Drwy bennu'r camau gweithredu allweddol, yr amserlenni a'r cymorth sy'n angenrheidiol i gynyddu maint y ddarpariaeth Gymraeg yn llwyddiannus dros amser, bydd modd i ysgolion, awdurdodau lleol, Estyn a Llywodraeth Cymru ddefnyddio Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg awdurdodau lleol i fonitro cynnydd mewn perthynas â set o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Byddwn hefyd yn atgyfnerthu **disgrifiadau'r categorïau o ran deilliannau ieithyddol, yr is-gategoriâu trosiannol a'r hyn y bydd y canrannau ym mhob categori yn ei olygu'n ymarferol.** Caiff disgrifiadau'r categorïau a'r deilliannau ieithyddol i ddysgwyr eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gyson â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ac unrhyw ddiweddariadau sy'n ofynnol ers gwneud Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Gwnaed gwaith ychwanegol yn ddiweddar i roi mwy o gyfarwyddyd ynghylch yr hyn y mae is-gategori trosiannol yn ei olygu ac am faint o amser y dylid caniatáu i ysgolion aros yn y categori hwn. Rydym yn hyderus o hyd na ddylai hyn fod yn hwy na 10 mlynedd er mwyn cyd-fynd â chylch y Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg ond, yn sicr, bydd achosion lle y gall ysgolion symud i gategori newydd yn llawer cynharach na hynny.

Rydym wedi meddwl yn ofalus er mwyn penderfynu ar yr hyn y bydd y canrannau ym mhob categori yn ei olygu'n ymarferol. Ar hyn o bryd, mae'r canrannau'n seiliedig ar y ganran o'r cwricwlwm a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol. Credwn mai dim ond rhan o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gall ysgolion a lleoliadau ei chynnig a ddangosir drwy hyn. Mae gweithgareddau di-rif yn digwydd mewn ysgolion, ledled awdurdod lleol ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm ond sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i drochi dysgwyr pob ysgol a lleoliad yn y Gymraeg cymaint â phosibl. Mae llawer o'r cyfleoedd trochi hyn mewn gwasanaethau, mewn sesiynau cofrestru, yn ystod amser cinio neu mewn clybiau ar ôl ysgol yn rhan o gynllun gweithredu Siarter Iaith neu Cymraeg Campus ysgol, ond nid ydynt yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu, yn ein barn ni, am eu cyfraniad pwysig i gaffael iaith. Gwyddom fod pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gweithredu'r Siarter Iaith a bod tua 60% o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn gweithredu Cymraeg Campus.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cyfeirio at **bwysigrwydd creu ethos Cymraeg ym mhob ysgol a lleoliad** yng Nghymru. Rydym yn cytuno â nhw, a byddwn yn cynnwys hyn yn y canllawiau terfynol.

Dyna pam **rydym yn cynnig cyfrifo'r ganran ar gyfer disgrifiad y categori yn seiliedig ar yr amser cyswllt** (sy'n cynnwys gweithgareddau cwricwlaidd yn ogystal â gweithgareddau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm) a gynigir i ddysgwyr yn Gymraeg. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r syniad hwn yn llawn ac rydym yn bwriadu profi'r dull hwn gydag arweinwyr addysg ac ymarferwyr ysgolion yn ystod tymor yr hydref.

I grynhoi, byddwn yn:

- Parhau â'n gwaith i sicrhau y caiff codau CYBLD eu diweddarau i adlewyrchu'r categorïau newydd.
- Sicrhau cysondeb â pholisïau addysg eraill, megis y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.
- Cynnwys cyfeiriad at greu ethos ysgol yn nisgrifiad pob categori.
- Rhoi mwy o fanylder mewn perthynas â deilliannau ieithyddol ac is-gategoriâu trosiannol.
- Datblygu ein gwaith meddwl ymhellach ynglŷn â'r syniad bod darpariaeth Gymraeg ysgol yn estyn y tu hwnt i amser y cwricwlwm ac yn cynnwys ehangder llawn y profiadau i gyfoethogi'r Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau, sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.

## **Mwy o uchelgais, adnoddau a chymhellion**

Rydym yn gobeithio lleddfu unrhyw bryderon ynglŷn ag uchelgais Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r polisi diwygiedig hwn drwy gynnwys y newidiadau uchod.

Rydym yn arbennig o awyddus i weld sut y gallai diffiniad ehangach o 'ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' arwain at gyfleoedd newydd neu adfywio mentrau sydd eisoes ar waith er mwyn helpu i atgyfnerthu sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr. Mae hyn yn cyd-fynd â sylwadau a wnaed yn nadansoddiad cryno Arad o'r ymgynghoriad a oedd yn tynnu sylw at alwadau am fwy o ffocws ar ddatblygu llafaredd Cymraeg. Nod ein strategaeth *Cymraeg 2050* yw creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n mwynhau defnyddio'r iaith ac sy'n gwneud hynny'n hyderus. Rydym am i'n categorïau iaith ar gyfer ysgolion adlewyrchu'r elfennau pwysig hyn.

Ochr yn ochr â'n gwaith yn y maes hwn, mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu fframwaith anstatudol ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg er mwyn cefnogi'r cynnydd a ddisgrifir ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y fframwaith hwn yn cyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a'r Saesneg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu cynllun gweithlu 10 mlynedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn gyson â'r broses o roi Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg awdurdodau lleol ar waith.

Rydym am weld mwy o ysgolion yn mabwysiadu cynlluniau mwy uchelgeisiol ac ymrwymedig i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y 10 mlynedd nesaf. Mewn partneriaeth â'u hysgolion, rydym hefyd am weld mwy o awdurdodau lleol yn nodi cynigion yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg i weithio gyda'u hysgolion a'u cefnogi ar hyd y continwmm iaith drwy newid eu categori iaith dros gyfnod penodedig o amser.



Mae angen inni fwrw ymlaen â newidiadau i bolisi addysg sy'n annog dysgwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Bydd y sector addysg yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o greu dysgwyr a fydd yn gadael ysgol yn meddu ar y Gymraeg a'r Saesneg.

## **Y camau nesaf**

Byddwn yn parhau i fireinio'r canllawiau drafft fel yr amlinellir uchod er mwyn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cynnal deialog agored â phartneriaid perthnasol i brofi cynigion amgen lle bo angen.

Pan gaiff y ddogfen ganllawiau derfynol ei chyhoeddi, byddwn hefyd yn cyhoeddi deunyddiau cymorth, megis taflenni ffeithiau electronig, ffeithluniau ac ati, i ysgolion ac awdurdodau lleol eu defnyddio i'w helpu i gyfleu'r polisi hwn i eraill, e.e. rhieni a chyrrff llywodraethu ysgolion.

Caiff y canllawiau anstatudol newydd ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod tymor yr hydref.

Hoffem ddiolch i bob un sydd wedi rhoi o'i amser i roi cyngor ac adborth ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi i gwblhau'r gwaith pwysig hwn.

## Rhestr o ymatebwyr

Adran Addysg Cyngor Gwynedd
Beryl Jones
Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cadeirydd – Rhieni Dros Addysg Gymraeg Sir Ddinbych
Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr, Ysgol y Frenni
Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Dafydd Llwyd, Y Drenewydd
Comisiynydd y Gymraeg
Corff Cysgodol Llywodraethol Ysgol Newydd 3-19, Crymlych
Corff Llywodraethol Ysgol Casmael Sir Benfro
CYDAG
Cymdeithas yr Iaith – Aelodau
Cymdeithas yr Iaith – Rhanbarth Caerfyrddin-Penfro
Cymdeithas yr Iaith – Rhanbarth Ceredigion
Cymdeithas yr Iaith – Grŵp Addysg
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – Rhanbarth Gwynedd a Môn
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir y Fflint
Dr Cen Williams

Dyfodol i'r Iaith
Estyn
Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd
Garry Lewis
Grŵp Gwella Ysgolion Rhanbarthol SEWC
Gwasanaeth Addysg Gatholig
Gwasanaeth Dysgu Cyngor a Fforwm Iaith Môn
Menter Iaith - Fflint a Wrecsam
Menter Iaith - Sir Ddinbych
Morgan Dafydd
Mr A Jenkins
Mudiad Meithrin
Neil P
NEU Cymru
Philip Evans
Pwyllgor Ymgynghorol Llywodraethwyr, Cyngor Sir Powys
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Rhisiart ap Rhys
UCAC
V H
Ysgol Frongoch Iau
Ysgol Llanilltud
Ysgol Uwchradd Llanidloes
Ysgol WG yr Eglwys yng Nghymru San Marc

Tim Ymgynghorol y Gymraeg - Cyngor Conwy
Fforwm CSGA Wrecsam
Ysgol Bro Teifi - Dirprwy Bennaeth Ffês 1
Ysgol Bro Teifi - Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Bro Teifi - Is-gadeirydd Corff Llywodraethwyr
Ysgol Dyffryn Conwy
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Ysgol y Preseli